**PROTOCOL DRAFFT AR GYFER CYSYLLTIADAU YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU Â'R CYNULLIAD**

**Cefndir statudol**

1. O dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (y Ddeddf), mae dyletswydd ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau pob sesiwn o'r Senedd, ac mewn ffordd sy'n ymddangos yn briodol iddo ef/hi. Er hynny, mae'n rhaid i hyn gynnwys bod yn bresennol mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad a chymryd rhan ynddo, o leiaf unwaith bob blwyddyn. Hefyd, mae'n rhaid iddo ef neu hi ymgynghori ar wahân ar ddeddfwriaeth a gyflwynir yn hwyrach yn ystod y sesiwn os nad oes ymgynghoriad wedi digwydd eisoes. Gall ef neu hi ddewis peidio ag ymgynghori ynghylch mesur penodol os bydd ef neu hi yn ystyried y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

2. O dan adran 76 o'r Ddeddf, mae hawl gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fynychu a chymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod llawn o'r Cynulliad, ond nid oes hawl ganddo/ ganddi i bleidleisio. Nid oes hawl statudol ganddo/ ganddi i fynychu cyfarfodydd pwyllgor. Hefyd mae'n rhaid iddo/ iddi dderbyn copïau o'r cofnod ac o'r holl ddogfennau sydd ar gael i aelodau'r Cynulliad ar yr un pryd ag y cânt eu darparu i'r aelodau.

3. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r protocolau i'w dilyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad mewn perthynas â'r adrannau hyn o Ddeddf Llywodraeth Cymru

**Mynychu cyfarfodydd llawn o'r Cynulliad.**

4. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi gwybod i'r Llywydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol yngln â'r bwriad i fod yn bresennol mewn sesiwn penodol ac os bydd yn dymuno siarad mewn dadl.

5. Ar yr un pryd â rhoi gwybod i'r Llywydd, bydd ef neu hi yn rhoi gwybod i'r Prif Ysgrifennydd yngln â'r bwriad.

6. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn Rheolau Sefydlog 6 a 7 mewn perthynas â gweithredu busnes mewn cyfarfodydd llawn.

7. Gelwir ar yr Ysgrifennydd Gwladol i siarad mewn unrhyw ddadl trwy drefnu o flaen llaw â'r Llywydd, a fydd fel arfer yn rhoi blaenoriaeth i unrhyw gais o'r fath gan yr Ysgrifennydd Gwladol. O'i ran ef / hi, oni bai y gwneir cytundeb o flaen llaw â'r Pwyllgor Busnes, neu yn ôl doethineb y Llywydd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parchu unrhyw derfyn amser ar areithiau sy'n berthnasol i Aelodau'r Cynulliad.

8. Bydd y Llywydd, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno ar drefniadau ar gyfer y ddadl statudol ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Bydd y Trefnydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am y trefniadau hyn, yn yr un modd â busnes y Cynulliad fel arfer. Byddant hefyd yn cytuno a ddylid cynnal dadleuon ar fesurau eraill sydd i'w cyflwyno gerbron y Senedd. Ar yr adegau hyn yn unig, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn agor ac yn ymateb i'r ddadl.

9. Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu mynychu dadl a drefnwyd ar y rhaglen ddeddfwriaethol, gall Gweinidog arall o Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru gynrychioli'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chytundeb y Llywydd a'r Prif Ysgrifennydd. Er hynny, ni all unrhyw Weinidog arall ddefnyddio hawl yr Ysgrifennydd Gwladol i fynychu a chymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod llawn, er y gall ef/hi wneud hynny trwy gytundeb o flaen llaw â'r Llywydd a'r Prif Ysgrifennydd.

10. Fel arfer bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyfathrebu â'r Cynulliad fel sefydliad corfforaethol trwy gyfrwng dogfennau. Er hynny, mewn sefyllfaoedd eithriadol, os bydd ef neu hi yn barnu ei bod yn briodol cyfathrebu trwy gyfrwng datganiad ar lafar i'r Cynulliad, bydd ef neu hi yn trafod y mater gyda'r Llywydd a'r Prif Ysgrifennydd a bydd yn cymryd rhan yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer datganiadau gan Ysgrifenyddion Cynulliad.

11. Os bydd y Llywydd neu'r Prif Ysgrifennydd yn credu y byddai o gymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol fynychu cyfarfod llawn penodol o'r Cynulliad naill ai er mwyn cymryd rhan mewn dadl neu i wneud datganiad, byddant yn estyn gwahoddiad iddo/ iddi wneud hynny gymaint o flaen llaw ag sy'n ymarferol. Ni fydd rheidrwydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwahoddiad o'r fath, ond os bydd yn gwneud hynny, bydd y Trefnydd yn ceisio trefnu i'r mater gael ei drafod yn ystod cyfarfod llawn arferol ar adeg sydd fwyaf cyfleus i'r Ysgrifennydd Gwladol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parchu'r un terfyn amser ar yr araith ag Aelodau o Gabinet y Cynulliad oni threfnwyd yn wahanol gyda'r Pwyllgor Busnes neu'r Llywydd.

12. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno mynychu unrhyw gyfarfod pwyllgor gall wneud hyn trwy drefnu o flaen llaw gyda'r Llywydd a'r Prif Ysgrifennydd.

13. Gall unrhyw un o bwyllgorau'r Cynulliad estyn gwahoddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog arall neu swyddog o Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn bresennol mewn cyfarfod neu i roi tystiolaeth iddo. Ni fydd rheidrwydd arnynt i dderbyn gwahoddiad o'r fath ond fel arfer byddant yn gwneud hyn pan fydd y mater yn berthnasol i swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol. Os bydd ef neu hi yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig, bydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Darparu Dogfennau**

14. Bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fynediad i Fewnrwyd y Cynulliad. Bernir y bydd ef neu hi wedi derbyn dogfennau os ydynt wedi eu cyhoeddi ar y Fewnrwyd.

15. Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno cyfathrebu â’r Cynulliad fel sefydliad corfforaethol trwy gyfrwng dogfen, bydd yn rhoi gwybod i’r Llywydd ei fod ef neu hi yn cyhoeddi dogfen ar y Fewnrwyd. Fel arfer bydd y ddogfen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.